Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn
Heol y Bardd, Porth Tywyn,
Sir Gaerfyrddin SA16 0NL
Ffôn:- 01554 832101
Ebost: admin@parcytywyn.ysgolccc.cymru
www.ysgolparcytywyn.co.uk
Pennaeth / Headteacher : Mrs A Williams

05.01.26

**Tywydd garw**

Annwyl Riant/Gwarcheidwad

Ar yr adeg hon o'r flwyddyn gall tywydd garw fel eira, rhew a stormydd achosi tarfu ar ffyrdd a busnesau. Rydym wedi gorfod cau heddiw oherwydd yr eira a'r amodau rhewllyd o amgylch safle'r ysgol sy'n ei gwneud hi'n anniogel. Os oes angen i ni gau'r ysgol yfory, neu yn y dyfodol, bydd y trefniadau canlynol ar waith.

Bydd neges yn cael ei hanfon trwy My School App ac Instagram yn hysbysu rhieni/gofalwyr bod yr ysgol ar gau. Bydd hyn yn cael ei anfon cyn gynted ag y mae'n weddol ymarferol gan ystyried rhybuddion tywydd a chanllawiau'r swyddfa MET. Bydd hyn erbyn 7:30yb.

Bydd cau'r ysgol hefyd yn cael ei roi ar y wefan ganlynol:

https://schoolclosures.carmarthenshire.gov.wales/

Gwnewch yn siŵr bod gennych drefniadau amgen ar waith os bydd yn rhaid i ni gau'r ysgol. Mae'r mesurau canlynol yn cael eu hystyried wrth wneud y penderfyniad.

- Trafodaeth gyda'r gofalwr ar yr amodau ar y safle, hygyrchedd a diogelwch gyrru a cherdded ar hyd y llwybr i'r ysgol ac unrhyw faterion eraill a allai effeithio ar weithrediad diogel yr ysgol.

- Trafodaeth gyda Chadeirydd y Llywodraethwyr yn ystyried y sefyllfa bresennol. Mae hyn yn cynnwys yr amodau tywydd, a oes digon o gapasiti staffio i ni agor yr ysgol, a fydd yn ddiogel i bawb deithio i'r ysgol.

Os yw'r ysgol ar gau oherwydd rhybuddion tywydd garw, yna bydd yn ddiwrnod cau'r ysgol.

Byddwn yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod yr ysgol yn parhau i fod ar agor, fodd bynnag, bydd diogelwch disgyblion a staff yr ysgol yn cael blaenoriaeth.

Diolch i chi i gyd am eich cefnogaeth a'ch dealltwriaeth barhaus.

Yr Eiddoch,

*A Williams*

Pennaeth / Headteacher

CYMRU DROS HEDDWCH WALES FOR PEACE
Eco-Sgolion
International School Award
Ysgolion Iach Sir Gaerfyrddin Carmarthenshire's Healthy Schools Scheme
FAIRTRADE CYFLAWNI'N DEG